

MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH RHWNG GWEINIDOGION CYMRU A'R CYNGOR DEFNYDDWYR DŴR

Nodyn Esboniadol

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth¹ hwn yn nodi'r cytundeb rhwng y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CDDŵr) a Gweinidogion Cymru² ac mae'n nodi'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i'r berthynas rhwng y naill barti a'r llall.

Mae'r Memorandwm yn gytundeb statudol sy'n ofynnol o dan adran 27B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003. O dan y Ddeddf hon, mae dyletswydd ar y CDDŵr a Gweinidogion Cymru wneud trefniadau rhwng y naill a'r llall gyda golwg ar hyrwyddo:

- (a) cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth rhwng y naill a'r llall;
- (b) cysondeb wrth ymdrin â materion sy'n effeithio ar y naill a'r llall.

Caiff y Memorandwm hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Weinidogion Cymru.

Bydd y Memorandwm hwn yn cael ei osod hefyd gerbron dau Dŷ'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel sy'n ofynnol o dan adran 27B(7) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

¹ Nid yw'r Memorandwm hwn yn cynnwys y trefniadau yr ymdrinnir â hwy gan Ddatganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol y CDDŵr y cytunwyd arnynt gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Gweinidogion Cymru.

² Nid yw'r Memorandwm hwn yn gymwys i waith a wneir gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar wahân ar gyfer y gwaith hwnnw.

MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

Rhagarweiniad

1. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r berthynas rhwng y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ("CDDŵr" neu'r "Cyngor"), a Gweinidogion Cymru.
2. Mae'r Memorandwm yn ofynnol yn unol ag adran 27B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003 (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd wedi hyn fel "y Ddeddf"), er mwyn sicrhau bod (a) Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cyngor yn cydweithredu ac yn cyfnewid gwybodaeth; a (b) yn ymdrin mewn ffordd gyson â materion sy'n effeithio ar y naill a'r llall. Ni fwriedir i'r Memorandwm ymdrin â phob agwedd fanwl ar y berthynas rhwng y naill barti a'r llall. Yn hytrach, mae'n ddatganiad o egwyddorion a fydd yn llywio'r berthynas rhwng y naill barti a'r llall er mwyn sicrhau bod trefniadau digonol yn eu lle i alluogi'r naill barti a'r llall i gyflawni'n cyfrifoldebau priodol yn effeithiol ac i osgoi dyblygu ymdrechion.
3. Nid yw'r Memorandwm hwn yn rhwymo'n gyfreithiol ond bydd yn ddogfen weithio a gaiff ei hadolygu yng ngoleuni'r modd y'i gweithredir yn ymarferol.

Adolygu Memoranda

4. Ceir diwygio'r Memorandwm hwn ar unrhyw adeg drwy gytundeb rhwng y naill barti a'r llall. At hynny, caiff y Memorandwm hwn ei adolygu bob tair blynedd a'i ddiweddarau yn ôl yr angen, yng ngoleuni'r ffordd y'i gweithredir yn ymarferol.

Rolau a Chyfrifoldebau

5. Mae'r CDDŵr yn cael ei noddi ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), a chafodd ei sefydlu o dan y Ddeddf er mwyn cynrychioli buddiannau cwsmeriaid ar draws Cymru a Lloegr³ drwy ymdrin â chwynion am ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth ac am gyflenwyr dŵr trwyddedig, drwy gael gafael ar wybodaeth, a'i chyhoeddi, drwy roi cyngor, a thrwy ymchwilio i faterion sydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr. Mae'r Cyngor yn cael ei gynorthwyo gan bwyllgorau rhanbarthol yn Lloegr a chan Bwyllgor ar gyfer Cymru a sefydlwyd o dan y Ddeddf, yn bennaf er mwyn rhoi cyngor a gwybodaeth i'r CDDŵr am faterion yn ymwneud â defnyddwyr sy'n effeithio ar ardaloedd yr ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth perthnasol y mae'r pwyllgorau'n gyfrifol amdanynt.
6. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer polisi dŵr ac sy'n pennu'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer y sector dŵr

³ At ddibenion y Memorandwm hwn mae "Cymru" yn golygu ardaloedd cwmnïau dŵr a charthffosiaeth a leolir yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru.

a charthffosiaeth yng Nghymru. Amcanion craidd Llywodraeth y Cynulliad yw sicrhau bod dŵr yfed diogel ar gael, bod gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yn fforddiadwy, ac y cydymffurfir â rhwymedigaethau statudol.

7. Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU er mwyn datblygu a darparu polisiau ar gyfer y sectorau dŵr a charthffosiaeth ac er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael lle canolog yn y modd y caiff y polisiau hynny eu cyflawni. Y polisiau hynny sy'n pennu'r fframwaith y bydd y CDDŵr yn cyflawni'i ddyletswyddau oddi mewn iddo.
8. Wrth gytuno ar y Memorandwm hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llwyr gydnabod annibyniaeth y CDDŵr ac mae'r CDDŵr yn cydnabod buddiannau a chyfrifoldebau cyfreithlon Llywodraeth Cynulliad Cymru yng ngwaith cyffredinol y CDDŵr.

Perthynas Waith

9. Byddwn yn ceisio adeiladu ar y berthynas waith dda sy'n bodoli rhyngom eisoes drwy:
 - feithrin perthynas waith agored ac adeiladol;
 - cydweithio'n agos â'n gilydd ar bob lefel, o ran polisiau, ac o ran materion sy'n strategol bwysig;
 - cynnal cyfarfodydd dwyochrog rhwng y CDDŵr a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru;
 - cytuno i gynnal cyfarfodydd rhwng Cadeirydd CDDŵr a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai lle bo hynny'n briodol;
 - parchu safbwyntiau'n gilydd, os ydynt yn wahanol, ar ôl trafod er mwyn sicrhau ein bod yn deall yn iawn y rhesymau dros wahaniaethau o'r fath;
 - mabwysiadu polisi o "fod yn agored â'n gilydd", gan roi gwybod i'n gilydd ymhell o flaen llaw lle bynnag y bo modd am gyhoeddiadau arwyddocaol ac am ddatblygiadau o ran polisi;
 - nodi'r meysydd lle mae cyswllt rhwng y naill a'r llall ohonom o ran rheoleiddio a nodi'r hyn y mae'r naill yn ei ddisgwyl gan y llall;
 - lleihau achosion o ddyblygu gweithgarwch lle bynnag y bo modd;
 - hysbysu rhanddeiliaid am y berthynas sydd rhyngom er mwyn lleihau ansicrwydd o ran rheoleiddio.

Cydweithredu

10. Rydym yn cadarnhau ein hymrwymiad i weithio gyda'n gilydd, lle bo hynny'n briodol, ar faterion sydd o fudd cyffredin. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cydweithredu ar draws amryfal feysydd, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn cadw'n hannibyniaeth statudol.

Ymdrin â Materion sydd o Fudd Cyffredin

11. Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfathrebu da rhwng y naill a'r llall ynghylch materion sydd o fudd cyffredin, a hynny ar sail polisi o "fod yn agored â'n gilydd". Byddwn yn gwneud hyn drwy gysylltiadau rheolaidd a thrwy drafodaethau rheolaidd am faterion perthnasol. Yn hytrach na chyfyngu ar ddisgresiwn y naill barti na'r llall, y nod yw caniatáu iddynt gyflwyno sylwadau i'w gilydd mewn da bryd i'r sylwadau hynny gael eu hystyried.

12. Yn unol â'r cefndir hwn, ac yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn, yn gyfrinachol yn ôl yr angen, yn:

- (i) rhoi gwybod i'r naill a'r llall, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, am ddatblygiadau perthnasol yn ein meysydd cyfrifoldeb, a hynny cyn iddynt gael eu cyhoeddi lle bo modd;
- (ii) rhoi ystyriaeth briodol i safbwyntiau eraill ac os nad ydym yn cytuno â hwy, esbonio pam;
- (iii) cytuno ar yr agendâu ar gyfer cyfarfodydd rhwng Gweinidogion ac uwch gynrychiolwyr y CDDŵr o leiaf bythefnos cyn y cyfarfod.

13. Byddwn yn gwahodd ein gilydd i gynadleddau ffurfiol i'r wasg ac i ddigwyddiadau cyhoeddus sy'n cael eu cynnal gan y naill, ond sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall.

14. Lle bo hynny'n briodol, byddwn, yn ôl yr angen, yn cysylltu â'n gilydd ynghylch drafftio dogfennau allweddol sy'n berthnasol i swyddogaethau'r llall, a byddwn yn cynnwys y naill a'r llall mewn gwaith o'r fath ac yn eu hysbysu amdano.

Cyfnewid Gwybodaeth

15. Byddwn yn anelu at leihau'r baich a roddir ar ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth ac ar gyflenwyr dŵr trwyddedig ("y Cwmnïau") o ran darparu gwybodaeth i awdurdodau cyhoeddus. Byddwn yn anelu at osgoi dyblygu drwy rannu amserlenni cyhoeddi a chynlluniau i gasglu gwybodaeth oddi wrth Gwmnïau. Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn ymgynghori â'n gilydd cyn ystyried cysylltu â Chwmnïau, a hynny er mwyn gweld a yw'r wybodaeth angenrheidiol ar gael eisoes ar ffurf briodol gan y llall.

16. Byddwn yn darparu gwybodaeth y gallai fod yn rhesymol i'r llall ofyn amdani, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a'r trefniadau diogelu angenrheidiol o ran cyfrinachedd neu'n ddarostyngedig i unrhyw waharddiadau ar ddatgelu.
17. Byddwn y naill yn ystyried cyfrifoldebau statudol y llall mewn perthynas â datgelu gwybodaeth sensitif.
18. Byddwn yn cyfeirio yn ôl unrhyw geisiadau am wybodaeth sydd gennym ond na wnaethom ei chasglu ac y gwyddom ei bod yn gyfrinachol ei natur at y parti o le y daeth yr wybodaeth honno yn y lle cyntaf. Bydd y naill yn rhoi gwybod i'r lall am unrhyw ddatgeliadau arwyddocaol i drydydd partïon o wybodaeth yn ydym wedi'i rhannu â'n gilydd.

Anghydfodau

19. Os ceir anghydfod am y modd y dehonglir a/neu y gweithredir y Memorandwm os nad oes modd i ni ei ddatrys ar lefel waith, bydd Prif Weithredwr y Cyngor a Chyfarwyddwr Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trafod y mater ac yn penderfynu ar ba gamau i'w cymryd.

Cyhoeddi'r Memoranda

20. Bydd Gweinidogion Cymru yn gosod y memorandwm hwn ac unrhyw femoranda diwygiedig gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn anfon y memorandwm hwn ac unrhyw femoranda diwygiedig at y partïon y mae adran 27B(1) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn ymdrin â hwy (ac nad ydynt yn bartïon i'r memorandwm hwn).
21. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn gosod y memorandwm hwn ac unrhyw femoranda diwygiedig gerbron y Senedd.
22. Caiff fersiwn cyfredol o'r Memorandwm hwn ei gyhoeddi ar wefan y CDDŵr (www.ccwater.org.uk) ac ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru (cymru.gov.uk). Bydd modd cael copïau caled hefyd drwy wneud cais i CDDŵr ar 0121 345 1000 ac i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 029 2082 5509.

Llofnodwyd:

..... **ar ran y Cyngor Defnyddwyr Dŵr
(Yve Buckland)**

Dyddiad:

.....**ar ran Gweinidogion Cymru**

(Matthew Quinn)

Dyddiad: